

Llywodraeth Cymru

Datgan Parth Atal Ffliw Adar Cymru Gyfan

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal asesiad risg o dan erthygl 6(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 (OS 2006/2927 W.262)¹ ("y Gorchymyn").
2. I leihau'r risg o drosglwyddo ffliw adar i ddofednod neu adar caeth eraill oddi wrth adar gwyllt neu oddi wrth unrhyw ffynhonnell arall yn dilyn cynnydd yn y lefelau risg o drosglwyddo ffliw adar sy'n effeithio ar Gymru, mae Gweinidogion Cymru yn unol ag erthygl 6(1) o'r Gorchymyn, yn ystyried ei fod yn angenrheidiol i ddatgan bod Cymru gyfan, fel y'i disgrifir yn Atodlen 5 yn Barth Atal Ffliw Adar.
3. Yn unol ag erthyglau 6(2) a 6(4) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gosod y mesurau canlynol o fewn y Parth Atal Ffliw Adar (AIPZ) er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo ffliw adar i ddofednod neu adar caeth eraill oddi wrth adar gwyllt neu unrhyw ffynhonnell arall.
4. Yn amodol ar baragraffau 5 a 6, rhaid i bob ceidwad dofednod ac adar caeth eraill rhaid i'r AIPZ gydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch yn Atodlen 1 a gofynion Atodlen 3, y Datganiad hwn.
5. Yn ogystal â gofynion paragraff 4 ac yn amodol ar baragraff 6, rhaid i bob ceidwad sydd â 50 neu fwy o ddofednod neu adar caeth eraill yn yr AIPZ gydymffurfio â'r mesurau yn Atodlenni 1 a 2 y Datganiad hwn.
6. Mae ceidwaid dofednod ac adar caeth eraill mewn safle sydd wedi'u trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 wedi'u heithrio o ofynion Atodlen 2 i'r Datganiad hwn. I'r graddau nad yw'n rhesymol ymarferol i geidwad sydd wedi'u trwyddedu felly gydymffurfio â'r gofynion yn Atodlen 3 i'r Datganiad hwn, fod rhaid i geidwad ddefnyddio'r mesurau y cyfeirir atynt yn Atodlen 4.
7. Mae'r mesurau hyn yn gymwys o 13:00 ar 9 Ionawr 2023 nes y caiff y Datganiad ei ddiwygio neu ei ddirymu gan ddatganiad pellach.
8. Gwneir y Datganiad hwn o dan erthygl 6 o'r Gorchymyn.
9. Gwneir y Datganiad hwn o dan erthygl 6 o'r Gorchymyn. Mae'n dirymu Datganiad Parth Atal Ffliw Adar a wnaed gan Weinidogion Cymru ar 7 Rhagfyr 2022.

Llofnod

Gavin Watkins, Brif Swyddog Milfeddygol Interim Cymru

O dan awdurdod Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig: 12:38 ar 9 Ionawr 2023

¹ O.S. 2006/2927 (W.262) fel y diwygwyd gan Orchymyn Ffliw Adar (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022/280 (W.81).

Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael trwy <https://llyw.cymru/ffliw-adar>

Gall methu â chydymffurfio â'r Datganiad hwn fod yn drosedd o dan adran 72 neu 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Nodiadau:

- (1) Os cadarnheir ffliw adar mewn dofednod neu adar caeth eraill mewn eiddo unigol, caiff Parthau Gwarchod a Gwyliadwriaeth eu datgan i atal y clefyd rhag lledaenu y tu hwnt i'r ardal o gwmpas y fferm heintiedig. Rhaid i geidwaid o fewn Parth Gwarchod neu Barth Gwyliadwriaeth (neu barthau rheoli dros dro neu barthau dan gyfyngiadau pathogenedd isel) gydymffurfio â'r gofynion bioddiogelwch a ddatganwyd yn benodol ar gyfer parthau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dileu'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol sy'n ofynnol gan y Datganiad hwn, gan gynnwys mesurau bioddiogelwch uwch os yw'r eiddo'n cynnwys mwy na 50 o adar.
- (2) At ddibenion y Datganiad hwn, mae "dofednod" yn golygu aderyn a fegir neu a gedwir mewn caethiwed at ddiben cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta, neu gynhyrchion eraill, ailstocio cyflenwadau adar hela neu at ddibenion unrhyw raglen fridio i gynhyrchu'r cyfryw gategoriâu o adar.
- (3) At ddibenion y Datganiad hwn, mae "aderyn caeth arall" yn golygu aderyn a gedwir mewn caethiwed nad yw'n ddofednod, gan gynnwys aderyn a gedwir fel anifail anwes neu ar gyfer sioeau, rasys, arddangosfeydd, cystadlaethau neu i'w fridio neu ei werthu.
- (4) At ddiben y Datganiad hwn, mae "ceidwad" yn golygu unrhyw berson sy'n gyfrifol am ddofednod neu adar caeth eraill, boed hynny'n barhaol neu dros dro.
- (5) At ddiben y Datganiad hwn, mae "eiddo" yn golygu unrhyw dir, adeilad, dŷ, sied, cwt, cŵp, adardy neu ardal wedi'i rhwydo, iard neu ardal agored a ddefnyddir i gadw dofednod neu adar caeth eraill, ac mae'n cynnwys ardaloedd ategol cyfagos megis biniau bwyd adar a storfeydd gwrtaith adar.
- (6) At ddiben y Datganiad hwn, mae "man crwydro" yn golygu unrhyw ardal yn yr awyr agored y caniateir i ddofednod ac adar caeth fynd iddynt ar unrhyw adeg.
- (7) Mae "ardal orchuddiedig" yn Atodlen 3 paragraff 2 yn golygu bod rhaid i'r ardal lle rhoddir bwyd a diod fod wedi'i gorchuddio i'w hatal rhag cael ei halogi gan adar gwyllt. Ni chaniateir rhoi bwyd a dŵr ar y ddaear neu mewn cafnau heb eu gorchuddio y gall adar gwyllt gael mynediad iddynt.
- (8) Mae "sw" yn golygu sw, acwariwm neu eiddo o fewn ystyr adran 1(2) o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 a weithredir o dan awdurdod trwydded o dan y Ddeddf honno neu sy'n ddarostyngedig i ollyngiad, mewn cyfarwyddyd o dan adran 14(1) o'r Ddeddf, nad yw'r Ddeddf yn gymwys i'r sw honno.
- (9) Mae "adar hela" yn golygu unrhyw ffesantod, petris, grugieir, adar hela'r mynydd neu rugieir neu hwyaid wedi'u magu ar gyfer hela.
- (10) Nid oes unrhyw beth yn y Datganiad hwn yn dileu'r rhwymedigaethau ar geidwaid dofednod neu adar caeth eraill i fodloni gofynion lles anifeiliaid presennol, a dylai ceidwad sy'n poeni am addasrwydd ei amodau lletya gael cyngor preifat gan filfeddyg.
- (11) Mae canllawiau ar fesurau bioddiogelwch ar gyfer dofednod ac adar a gedwir ar gael yng nghanllawiau bioddiogelwch drwy [Bioddiogelwch ac atal afiechyd mewn adar caeth | LLYW.CYMRU](#)
- (12) Rhaid i unrhyw un sy'n cadw dofednod neu adar caeth eraill gadw llygad barcod arnynt am unrhyw arwyddion o glefyd, a dylent gael cyngor gan eu milfeddyg yn syth os oes ganddynt unrhyw bryderon. I gael manylion am beth i'w wneud os byddwch

chi'n amau bod y clefyd yn eich ardal, ewch i [Ffliw adar: y diweddaraf | LLYW.CYMRU](#)

Atodlen 1 – Mesurau bioddiogelwch gofynnol sy'n berthnasol i bob ceidwad

1. Rhaid i bob ceidwad gymryd camau priodol ac ymarferol, y gellir eu dangos i arolygydd ar gais, i sicrhau–

- (1) bod rhagofalon yn cael eu cymryd i osgoi trosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol halogiad y feirws rhwng eiddo, o unrhyw beth all ledaenu'r haint fel dillad, a thrwy lanhau a diheintio cyfarpar, cerbydau ac esgidiau. Rhaid gosod dipiau traed yn cynnwys diheintydd dofednod cymeradwy ar y gyfradd wanediad gywir mewn mannau strategol, gan gynnwys wrth fynedfeydd ac allanfeydd pob tŷ neu ardal awyr agored lle cedwir adar, a rhaid i esgidiau gael eu glanhau bob amser gan ddefnyddio'r dipiau wrth fynd i mewn ac allan o'r ardaloedd hynny neu dylid newid esgidiau neu orchudd untro ar ben esgidiau wrth symud rhwng ardaloedd lle cedwir adar ac ardaloedd heb adar;
 - (2) nad yw bwyd, dŵr na sarn yn agored i halogiad y feirws, yn arbennig trwy dail adar a'u bod yn cael eu storio mewn modd nad yw adar gwyllt yn gallu cyrraedd atynt;
 - (3) ni ddylid cadw hwyaid a gwyddau yn yr un lloc neu adeilad â rhywogaethau eraill o ddofednod neu adar caeth.
 - (4) bod fermin yn cael eu rheoli'n effeithiol mewn unrhyw ran o'r eiddo lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill;
 - (5) na chaiff adar ysglyfaethus eu bwydo ag unrhyw eitem sy'n debygol o fod wedi'i halogi gan y feirws
 - (6) bod symudiad pobl (ar wahân i mewn sw), cerbydau neu gyfarpar i'r rhan o'r eiddo lle cedwir dofednod ac oddi yno yn cael ei gyfyngu i symudiadau hanfodol yn unig i ofalu am eu lles, i gasglu wyau, i'w bwydo, ymweliadau arolygu neu ymweliadau gan swyddogion sydd wedi eu hawdurdodi gan y gyfraith i fod ar yr eiddo;
 - (7) mae pob personél yn gyfarwydd ac yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn y Datganiad hwn;
 - (8) bod cofnodion yn cael eu cadw (ar wahân i mewn sw) o bob cerbyd sy'n mynd i mewn i unrhyw ran o'r eiddo lle cedwir dofednod ac o bob person sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r dofednod.
 - (9) bod cofnodion yn cael eu cadw o ddofednod, adar caeth a symudiadau wyau, a'u bod ar gael i archwiliwr milfeddygol ar gais. Dylai'r cofnodion gynnwys:
 - nifer a disgrifiad (gan gynnwys rhywogaeth yr aderyn neu math o ŵy) sy'n cael ei gludo neu ei farchnata;
 - dyddiad symud oddi ar y safle;
 - lleoliad y gyrchfan (os yn hysbys);
 - enw a chyfeiriad y person y mae'r berchnogaeth neu y meddiant wedi ei drosglwyddo neu i gael ei drosglwyddo iddynt;
 - (10) bod adeiladau sy'n cadw'r adar yn cael eu cynnal a'u cadw a bod diffygion yn cael eu cywiro ar unwaith a allai adael dŵr i mewn neu unrhyw halogiad arall;
2. Rhaid i bob ceidwad gwblhau'r [Rhestr wirio hunan-asesu gorfodol | LLYW.CYMRU](#) gorfodol o fewn 7 diwrnod i'r Datganiad hwn ddod i rym.


Atodlen 2 – Mesurau bioddiogelwch uwch ar gyfer eiddo â 50 neu fwy o ddofednod neu adar caeth

- (1) Ar ben y mesurau bioddiogelwch gofynnol a amlinellir yn Atodlen 1 o'r Datganiad hwn, rhaid i bob ceidwad sydd â 50 neu fwy o ddofednod neu adar caeth gydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch uwch yn yr Atodlen hon. Mae mesurau ar wahân ar waith yn y rhannau canlynol o'r eiddo lle y cedwir dofednod neu adar caeth neu'r ddau (fel a ddangosir isod) –
- (a) rhan dofednod/adar caeth (tai adar byw)
 - (b) rhan (byffer ategol) gan gynnwys yr ardal y tu allan i'r ardal dan do a thu mewn i'r rhwystr bioddiogelwch
 - (c) rhan mynediad cyfyngedig (rhwystr bioddiogelwch) sef y ffin effeithiol o adran ddofednod neu adar caeth yr eiddo.

Bio secure barrier to poultry enterprise – Rhwystr bio-ddiogel i'r ardal ddofednod

Ancillary part - Rhan ategol

Live bird/housed part – Rhan adar byw/dan do



- (2) Mae'r mesurau canlynol yn berthnasol i ran dofednod/adar caeth (adar byw dan do) yr eiddo—
- (a) dylai mynediad ac allanfa un personél fod wedi'i gyfyngu i bersonél awdurdodedig hanfodol yn unig;
 - (b) rhaid i geidwaid weithredu hylendid ataliol effeithiol, gan gynnwys newid dillad gwisgo menig tafladwy a newid esgidiau, cyn mynd i mewn ac allan o'r rhan adar byw. Er mwyn hwyluso hyn, mae'n rhaid cynnal 'ardal drosiannol', sy'n ddigon mawr i ganiatáu storio a newid i mewn i/allan o ardal adar byw. Dylai dillad ac esgidiau penodol (gan gynnwys PPE pwrpasol) fod yn bresennol o fewn y rhan adar byw a bod arwyddion yno. Cyn mynd i mewn i'r ardal hon dylid diheintio esgidiau gan ddefnyddio diheintydd cymeradwy ffliw adar(" ") y tu allan yn yr ardal ategol. Os yw esgidiau'n fudur, dylid glanhau cyn diheintio a dylai pibelli dŵr/brwshys fod ar gael ar gyfer hyn.
 - (c) dim ond cyfarpar a cherbydau hanfodol sy'n cael mynd i mewn i'r rhan adar byw. Dylai hwn fod yn un fynedfa ar wahân i'r fynedfa personél;
 - (d) rhaid i rannau allanol unrhyw gerbydau (yn enwedig olwynion a bwâu olwynion) a chyfarpar sy'n mynd i mewn neu allan o'r rhan adar byw dan do yr eiddo gael eu glanhau a'u diheintio gan ddefnyddio diheintydd Ffliw Adar wedi'i gymeradwyo cyn mynd i mewn ac allan o'r rhan honno;
 - (e) rhaid i dai a chyfarpar gael eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr (yn seiliedig ar arfer gorau'r diwydiant) ar ddiwedd cylch cynhyrchu a chyn i adar newydd gael eu cyflwyno;

- (f) rhaid cadw cofnodion o gerbydau a phersonél sy'n mynd i mewn ac allan o'r rhan adar byw.
 - (g) rhaid i geidwaid archwilio deunydd a chyfanrwydd strwythurol unrhyw adeilad a ddefnyddir i gartrefu dofednod am dyllau a gollyngiadau, gyda phwyslais arbennig ar doeau, gwteri a phibellau. Rhaid trwsio unrhyw dyllau a gollyngiadau heb ormod o oedi. Rhaid gwirio systemau awyru er mwyn atal unrhyw adar gwyllt rhag cael mynediad neu halogi.
 - (h) dylai cynhyrchwyr wyau sicrhau bod pacio, trin a storio wyau eilaidd / eitemau fferm o ansawdd eilaidd yn cael ei reoli mewn modd bio-ddiogel. Rhaid glanhau hambyrddau wyau plastig a'u diheintio gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd gan Ffliw Adar cyn ei ddefnyddio a chadw cofnodion fel y manylir ym mharagraff (7) o Atodlen 1 i'r Datganiad hwn.
- (3) Mae'r mesurau canlynol yn berthnasol i ran (byffer ategol) gan gynnwys yr ardal y tu allan i'r rhan dan do a thu mewn i'r rhwystr bio-ddiogelwch -
- (a) dylai mynediad fod wedi'i gyfyngu i bersonél hanfodol yn unig, a dylai arferion bioddiogelwch llawn gael eu mabwysiadu wrth fynd i mewn ac allan o'r rhan hon o'r eiddo;
 - (b) dylai'r rhan hon o'r eiddo fod yn gwbl ar wahân i'r rhan adar byw dan do, gyda ffin glir;
 - (c) rhaid i wastraff a stoc trig gael eu cadw mewn cyfleusterau bioddiogelwch priodol yn y rhan hon o'r eiddo, gyda ffin glir rhwng y rhan adar byw dan do;
 - (d) Fel yn Atodlen 1 (2) y Datganiad hwn, rhaid gorchuddio bwyd anifeiliaid neu sarn os ydynt yn cael eu storio yn y rhan hon, a chymryd rhagofalon i beidio â chaniatáu halogi bwyd anifeiliaid neu sarn gan faw adar gwyllt wrth ei gymryd i'r rhan adar byw dan do.
- (4) Mae'r mesurau canlynol yn berthnasol i ran mynediad cyfyngedig (rhwystr bioddiogelwch) yr eiddo sef ffin effeithiol adran dofednod ac adar caeth y safle –
- (a) dylai mynediad gan y cyhoedd gael ei reoli a dim ond gweithwyr neu gontractwyr hanfodol ddylai fynd i mewn i'r rhan hon. Dylid mabwysiadu arferion bioddiogelwch llawn wrth gael mynediad a gadael trwy'r rhwystr gan gynnwys newid dillad allanol ac esgidiau a diheintio esgidiau gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd gan Ffliw Adar wrth fynd i mewn i'r rhan hon o'r rhan ategol neu o'r tu allan i'r safle;
 - (b) ni ddylai cerbydau nad ydynt yn hanfodol fynd i mewn i'r rhan hon. Rhaid glanhau a diheintio tu allan unrhyw gerbydau (gan ganolbwyntio ar olwynion a bwâu olwynion) sy'n mynd i mewn neu'n gadael y rhan wrth gael mynediad ac wrth ymadael gyda diheintydd ffliw Adar wedi'i gymeradwyo;;
 - (c) ni ddylid bwydo adar hela gwyllt o fewn 500m i ran mynediad cyfyngedig y safle lle mae'r ardal hon o dan reolaeth y ceidwad.
- (5) lle mae safleoedd dofednod yn rhan o fentrau mwy, cysylltiedig, mae angen defnyddio'r mesurau bioddiogelwch gwell yn llym a lle bo modd dylid rhannu staff, offer ac adnoddau rhwng safleoedd cyn lleied â phosibl.

Atodlen 3 – Gofynion i geidwaid dofednod neu adar caeth eraill o fewn y Parth Atal Ffliw Adar

- (1) Rhaid i bob ceidwad sicrhau bod pob dofednod neu aderyn caeth arall yn cael eu cadw mewn adeiladau yn unol â'r amodau canlynol –
- (a) rhaid i'r adeiladau fod yn addas at ddiben cadw dofednod ac adar caeth eraill dan do a chael eu harchwilio'n rheolaidd gan y ceidwad i sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben hwnnw;

- (b) rhaid gorchuddio unrhyw agoriadau mewn adeiladau â rhwyll addas neu rwyd digonol i atal cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol ag adar gwyllt;
 - (c) rhaid i rwyll neu rwyd o'r math y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) beidio â bod yn fwy na 25mm.
- (2) Yn amodol ar baragraff 3, ble nad yw'n rhesymol ymarferol i geidwad gydymffurfio â pharagraff (1), rhaid i'r ceidwad sicrhau bod pob dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw mewn ardaloedd awyr agored sy'n cadw at yr amodau canlynol—
- (a) Rhaid i'r ardal awyr agored gael ei hamgáu'n llawn gyda rhwyll gwifr, rhwyd neu ddeunydd arall sy'n ddigonol i atal cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol ag adar gwyllt.
 - (b) rhaid i rwyll gwifr, rhwyd neu ddeunydd arall o'r math y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) beidio â bod yn fwy na 25mm
 - (c) haid i bob ceidwad sicrhau bod cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol gydag adar gwyllt a'u plu neu ysgarthion yn cael ei osgoi; a chyda dofednod ac adar caeth eraill o safleoedd eraill.
 - (d) cymerir pob cam rhesymol i leihau mynediad gan ddofednod ac adar caeth eraill i ardaloedd sy'n cael nifer o ymwelwyr ac sy'n cael eu halogi gan adar y dŵr gwyllt.
 - (e) cyfyngir mynediad at ddŵr agored neu sefydlog (ac eithrio mewn sŵ) trwy ffensio a rhwydo pyllau, dŵr sefydlog, neu dir dyfrlawn i atal mynediad gan ddofednod neu adar caeth eraill;
 - (f) rhaid i'r ceidwad, cyn gosod unrhyw strwythurau neu glostiroedd newydd ar dir at ddiben cadw dofednod neu adar caeth eraill yn yr awyr agored, drefnu i archwilio'r safle perthnasol am blu ac ysgarthion o adar gwyllt ac, os darganfyddir deunydd o'r fath, symud deunydd o'r fath;
 - (g) rhaid i'r ceidwad ddarparu bwyd anifeiliaid a dŵr mewn ardal wedi'i orchuddio o'r ardal awyr agored.
 - (h) rhaid i'r ceidwad sicrhau nad yw adar gwyllt yn cael eu denu i gyffiniau'r ardal awyr agored, yn benodol, at ddŵr llonydd neu byllau; a
 - (i) rhaid i'r ceidwad archwilio'r ardal gaeëdig yn rheolaidd er mwyn sicrhau bodloni'r amodau yn y paragraff hwn.
 - (j) bod pob llwybr cerdded concriid, llwybrau ac arwynebau tebyg y mae dofednod neu adar caeth eraill neu adar gwyllt yn cael mynediad iddyn nhw yn cael eu glanhau a'u diheintio yn rheolaidd.
- (3) Nid yw paragraff 2(a) a 2(e) yn berthnasol i anseriformes (adar dŵr), ratidau a dofednod a gedwir ar gyfer ailstocio cyflenwadau adar hela lle cytunir gyda milfeddyg preifat mai dyma
- (a) yn anymarferol, oherwydd maint neu dir yr ardal sydd angen ei gorchuddio neu,
 - (b) yn debygol o gael effaith negyddol ar les yr adar
- (4) Rhaid peidio â symud adar hela gwyllt "wedi'u dal" yn ystod y tymor agored (o dan Ddeddf Helwriaeth 1831) tan fod o leiaf 21 diwrnod o'r dyddiad dal wedi mynd heibio, oni bai bod y symudiad—
- (a) yn uniongyrchol ac wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol ac a all fod yn ddarostyngedig i amodau; neu
 - (b) o fewn yr un fangre.
- (5) Rhaid i'r ceidwad gadw cofnod o'r dyddiad dal a nifer yr adar sy'n cael eu dal bob dydd. Mae'r cyfnod gwahardd symud 21 diwrnod yn berthnasol o'r dyddiad y mae'r aderyn olaf yn

cael ei ddal neu'r dyddiad mae'r aderyn olaf yn cyrraedd y safle ble bydden nhw'n cael ei chadw.

- (6) Ni chaniateir rhoi trwydded o dan 4(a) oni bai bod arolygydd milfeddygol wedi ystyried:
 - (a) y risg o ledaeniad posibl y fflw adar pe bai'r drwydded yn cael ei rhoi;
 - (b) effeithiolrwydd biogddiogelwch ar gyrchfan i atal cyswllt rhwng yr adar sy'n cael eu symud ac adar eraill; ac
 - (c) unrhyw fesurau rhagofalus y dylid eu cymryd cyn dechrau, yn ystod neu ar ôl y symud.

- (7) Mae "Dal" yng nghyd-destun y paragraff hwn yn cyfeirio at yr arfer o gasglu adar hela gwyllt at ei gilydd mewn caethiwed at ddiben ailstocio cyflenwadau adar hela neu unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu adar o'r fath.

Atodlen 4 – Sŵau

- (1) I'r graddau nad yw'n rhesymol ymarferol i geidwad mewn sŵ gydymffurfio â gofynion Atodlen 3 i'r Datganiad hwn, bod yn rhaid i geidwad gymryd mesurau o'r fath fel sy'n rhesymol ac yn ymarferol i atal clefydau posibl rhag lledaenu gan gynnwys—
 - (a) ynysu grwpiau o adar caeth heb eu cartrefu neu mewn ardaloedd awyr agored rhag pob dofednod ac adar caeth eraill;
 - (b) asesu'r risg o'r cyhoedd yn cael mynediad at glostiroedd adar caeth dan do;
 - (c) rheoli mynediad i glostiroedd adar caeth awyr agored gan gynnwys ei gyfyngu i bobl hanfodol;
 - (d) ei gwneud yn ofynnol i bersonau wisgo offer diogelu personol addas yn enwedig os mewn cysylltiad uniongyrchol â'r adar caeth;
 - (e) gosod matiau diheintydd ar bob pwynt mynediad i ac ymadael o ardaloedd sy'n gartref i dofednod ac adar caeth eraill ac sy'n cael ymweliadau gan aelodau o'r cyhoedd.
 - (f) sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo ar gael i aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld os yw'r cyhoedd am gael mynediad i rannau o'r sŵ lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill; a
 - (g) mewn ymgynghoriad â milfeddyg preifat, rhoi cyfiawnhad cadarn dros unrhyw wyriad a dangos bod gan y sŵ fesurau ar waith i leihau unrhyw afiechyd a ledaenwyd o glostiroedd awyr agored o'r fath heb eu rhwydo.

Atodlen 5 – Parth Atal Ffliw Adar

Mae'r Parth Atal Ffliw Adar yn gymwys i Gymru gyfan

Mae'r map rhyngweithiol ar gael yma:

<https://defra.maps.arcgis.com/apps/webappviewer/index.html?id=8cb1883eda5547c6b91b5d5e6aeba90d>